17.06.2021

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Disgwyl 'mlan i fynd dros ben festri unwaith eto

Mae criw digrif **Hyd y Pwrs** yn ôl gyda chyfres newydd sbon. O nos Wener (2 Gorffennaf) ymlaen, bydd Iwan John, Aeron Pughe a'u ffrindiau yn tynnu coes pawb a phopeth, gan gynnwys S4C.

Ymhlith yr uchafbwyntiau sy'n aros yn y cof o'r gyfres gyntaf mae; *Heno ma, Gorau Prys Meirion, Trash y Teulu* a *04AL*.

Ond pwy, neu pa raglenni, fydd yn cael eu dychanu y tro hyn?

"Y bwriad yw mynd ar ôl rhaglenni cyfoes, y rhai ti'n weld os wyt ti'n digwydd cael cyfle i roi y teledu 'mlaen yn ystod y dydd. Felly yn ogystal â'r *Ddau Drycar* a *Merched y festri*, bydd pethau hollol newydd fel têc Cymreig ar *Homes under the hammer*," meddai Aeron Pughe.

Mae Aeron sy'n byw ym Mro Dyfi, yn wyneb cyfarwydd i Gymry o bob oedran gan iddo chwarae Ben Dant ar wasanaeth plant Cyw, ers deg mlynedd bellach. A dyna sut dechreuodd y cyfeillgarwch rhyngo ef ac Iwan.

"Doeddwn i heb gwrdd â Iwan nes gweithio ar sioeau Cyw. Efallai y bydd o'n anghytuno, ond mi wnaethom glicio ac erbyn hyn rydyn ni'n dipyn o fêts. Wrth sgwrsio dros beint daeth y syniad gwreiddiol o sgwennu rhywbeth, a mae'r peth wedi datblygu'n naturiol ers hynny.

"Fi yw'r chwerthin ŵr yn y criw. Mae Iwan, Rhodri (Evan), Steffan (Rhys Williams) a Dion (Davies) yn wych am gadw wyneb syth. Dwi'n meddwl weithiau mai dyna pam dwi yna, mae'r lleill yn licio fy mod i'n chwerthin arnyn nhw.

"I ddweud y gwir, mae pawb sydd wedi gwylio yn chwerthin mwy am y ffaith nad yw'r dynwaredai ddim byd tebyg, ond mae 'na rhywbeth bach yna sy'n ei wneud yn amlwg. Rydyn ni jyst yn gwneud popeth mewn ffordd hollol wirion.

"Tydi Cymru ddim yn fawr iawn, felly mae angen trio plesio y gynulleidfa i gyd, a hefyd bod yn ofalus o beidio ypsetio neb, achos mae pawb yn adnabod pawb."

Meddai Iwan John, "Cymryd y mic mas o'r rhaglenni ydy ni mwy na'r bobl. Mae fel cartŵn o'r rhaglen bron, nonsens llwyr. Tydy ni ddim yn bwriadu pechu neb! Ers y gyfres gyntaf, fi wedi gweld Rhodri Owen ac mae Rhys Meirion wedi anfon fideo ata i, felly fi'n gobeithio bod dim drwg deimlad!"

"Ti jyst yn gweld cwpwl o bethau yn y person, ystumiau neu'r ffordd mae nhw'n dweud pethau. Mae fel *hook* bach wedyn, ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu o fanno. Mae'r ffordd

ni’n gweithio yn arbrofol mewn ffordd, pam rydyn ni’n ffilmio tydy ni ddim gyda sgript parod, mae lot ohono yn fyrfyfyr, jyst ni yn mynd off. Ac i wneud hynny mae’n rhaid cael y pobol iawn rownd ti.”

Dywedodd Aeron, “Wel ia, roedden ni’n lwcus iawn i gael cwpwl o cameos hefyd. Gan fod rhaid mynd mewn i bybls i ffilmio, mewn llefydd fel Caerfyrddin a’r Felinheli, mae ‘na amryw o wynebau cyfarwydd y genedl yn cymryd rhan, felly gwyliwch allan amdanynt!”.

Mae un peth yn sicr, mae **Hyd y Pwrs** yn mynd a ni i fydysawd cyfochrog, ble mae ffefrynnau fel *Priodas Pum Mil, Real Housewives* ac *Am Dro* yn cael eu gwthio i’r neilltu o blaid clasuron newydd fel *Difors Pum Mil, Gwragedd Go iawn y Felinheli, Ar taith* a *Mastermaind*.

Ychwanegodd Iwan, “Rhaid treial bwrw’r ffiniau i weld be sy’n gweithio. A na’r peth ambwyti comedi, does dim ots. Rwy’n siŵr bydd lot yn hoffi, rhai yn dwli ond efallai bydd rhai yn casáu hefyd.”

Felly am hanner awr o hwyl, sbri a nonsens llwyr - gwyliwch **Hyd y Pwrs** ar S4C, nos Wener am 9.00. Pwy sy’n ‘disgwyl mlaen’?

**Hyd y Pwrs**
**Nos Wener 2 Gorffennaf, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Wes Glei ar gyfer S4C**

16.06.2021

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Hit comedy, Hyd y Pwrs, returns for second series

The **Hyd y Pwrs** gang are back with a brand new series. From Friday (July 2) onwards, Iwan John, Aeron Pughe and friends will make fun of everyone and everything, including S4C.

Highlights of the first series include; *Heno ma, Gorau Prys Meirion, Trash y Teulu* and *04AL*.

But who, or what programmes, will be satirised this time?

"We went for current shows, the ones you see if you happen to turn the TV on during the day. So in addition to *Y Ddau Drycar* (the two truckers) and *Merched y Festri* (the vestry ladies), some sketches will be completely new – for example, a Welsh take on Homes under the Hammer," said Aeron Pughe.

Aeron, who lives in Bro Dyfi, is a familiar face to Welsh people of all ages having played Ben Dant on the Cyw children's service for 10 years. And that is how the friendship between Iwan and Aeron began.

"I hadn't met Iwan until we worked together on Cyw shows. He may disagree, but we clicked and became good mates. The idea of writing something originally came while chatting over a pint, and it has developed naturally since then.

"I'm the giggler of the bunch. Iwan, Rhodri (Evan), Steffan (Rhys Williams) and Dion (Davies) are good at keeping a straight face. I think sometimes that's why I'm there, the others like it that someone laughs at them.

"In fact, everyone who's seen **Hyd Y Pwrs** laughs more about the fact that the impressions are nothing like the actual people, but there's a little something that makes it obvious who it's meant to be. We just do everything in a completely silly way.

"Wales isn't very big, so we need to please the whole audience while being careful not to upset anyone, because everyone knows everyone."

Iwan John said, "The aim is to take the mick out of the programmes, not the people. It's almost like a cartoon version of the programme, complete nonsense. We don't set out to offend anyone! Since the first series, I've seen Rhodri Owen and Rhys Meirion has sent me a video, so I hope there's no bad feelings!".

"You just pick up on a couple of traits in the person, gestures or the way they say things. It's like a little hook to start and we work collaboratively to develop it from there. The way we work

is experimental in a way. We don't have a set script when we film, a lot of it is improvised and we just go off. And to do that you need to have the right people around."

Aeron said, "Well yes, we were very lucky to have a couple of cameos as well. As we had to get into bubbles to film, in places like Carmarthen and Y Felinheli, we managed to get many of the nation's familiar faces to take part, so watch out for them!"

One thing is for sure, **Hyd Y Pwrs** takes us to a parallel universe, where favourites such as *Priodas Pum Mil, Real Housewives* and *Am Dro* are pushed aside in favour of new classics like *Difors Pum Mil, Gwragedd Go iawn Y Felinheli, Ar taith* and *Mastermaind*.

Iwan added, "We've got to test the boundaries to see what works. And in comedy, it just doesn't matter. I'm sure many will like it, some will love it, but some may hate it too."

So for half an hour of fun, belly laughs and total nonsense - watch **Hyd y Pwrs** on S4C, Friday at 9.00.

**Hyd y Pwrs**
**Date, time**
**English subtitles available**
**On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Wes Glei production for S4C**